Rhif: WG32582

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr

23 Mawrth 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78903-671-8

Cynnwys Tudalen

1. Rhagarweiniad 3
2. Y Cynigion 3
3. Yr Ymgynghoriad 3
4. Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad 5

4.1 Ydych chi'n cytuno â'r gweithredu yn 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr'? Rhowch resymau dros eich ateb yn y blwch sylwadau pellach os gwelwch yn dda. **5**

4.2 Ein nod yw bod gan bawb gyfle i gyflawni eu potensial a byw bywydau iach, ffyniannus a bodlon fel y medrant chwarae rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol. **6**

Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

4.3 Rydyn ni eisiau i bawb fyw mewn cartref sy'n ateb eu hanghenion ac sy'n cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? **9**

4.4 Rydyn ni eisiau gweld sector gofal cymdeithasol cynaliadwy o safon uchel yng Nghymru, gyda gwasanaethau ataliol ac integredig yn y gymuned, yn helpu pobl i fyw bywydau annibynnol. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? **11**

4.5 Rydyn ni eisiau sicrhau nad yw problemau iechyd meddwl yn rhwystr i gyflawni potensial ym mhob rhan o fywyd. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? **12**

4.6 Dylai pawb fod wedi ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd a chyfle i ddysgu sgiliau newydd drwy eu bywyd gwaith. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? **13**

4.7 Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod gymaint o Sipsiwn, Roma a Theithwyr â phosib yn ymwybodol o'r cynigion yn 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' ac yn eu deall. Yn eich barn chi, beth fyddai'r ffordd orau o gyfathrebu'r ddogfen gyhoeddedig i bobl yn y cymunedau hyn ac a oes angen gwahanol ddulliau cyfathrebu ar gyfer pob cymuned? **15**

4.8 Allwch chi feddwl am unrhyw effeithiau ychwanegol (da neu ddrwg) y gallai'r ddogfen hon eu cael ar yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb neu Hawliau Plant? I'ch cynorthwyo, bydd angen i chi gyfeirio at yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Plant sy'n dod gyda'r holiadur hwn. Eglurwch eich barn gan awgrymu sut y dylid efallai diwygio'r ddogfen er mwyn cynyddu ei heffeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol? **16**

4.9 Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i ddweud amdanynt. **17**

5. Sylwadau Cloi 19
6. Y Camau Nesaf 19

Atodiad A 20

1. Rhagarweiniad

Ar 21 Medi 2017, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ymgynghoriad ar y cynllun *Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr* drafft ('y Cynllun') i holi barn pobl am gynigion a fydd, gobeithio, yn datblygu a gwella mynediad at gymorth, cyngor a gwasanaethau i'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws Cymru. Nod yr ymgynghoriad hefyd oedd mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a'r tlodi a brofir gan y cymunedau.

Bydd y ddogfen derfynol yn disodli'r 'Fframwaith Gweithredu a'r Cynllun Cyflawni Teithio at Ddyfodol Gwell (2011)'.

2. Y Cynigion

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n helpu i:

- wella cynhwysiant cymdeithasol
- rhoi mynediad at lety o ansawdd da a diwylliannol briodol
- lleihau effaith a nifer yr achosion o wersylla diawdurdod a digartrefedd
- cau'r bwlch mewn canlyniadau addysgol ac iechyd
- hybu eu dealltwriaeth o'u hawliau a chynyddu eu cyfraniad at benderfyniadau
- cefnogi mynediad cyfartal at y farchnad lafur
- gwella eu perthynas ag asiantaethau gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol

3. Yr Ymgynghoriad

Rhedodd y cyfnod ymgynghori o'r 21 Medi 2017 tan 21 Rhagfyr 2017. Cafodd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflenni ymateb eu darparu. Penderfynwyd caniatáu ychydig o ymatebion hwyr hefyd i sicrhau ein bod yn ystyried yr ystod ehangaf posib o ymatebion.

Anfonwyd naw cwestiwn allan mewn dogfen oedd ar gael ar-lein ac y gellid ei dychwelyd naill ai fel copi caled neu drwy e-bost.

Derbyniwyd 41 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan sefydliadau ac unigolion. Roedd hyn yn cynnwys pedwar ymateb dienw gan awdurdodau lleol a phedwar ymateb dienw gan aelodau'r cyhoedd, yn ogystal ag ymatebion gan y sefydliadau isod:

Ymatebion Ysgrifenedig	
Estyn	Prifysgol Bournemouth
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Heddlu De Cymru
Tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
Cymorth Cynllunio Cymru	Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Y Bartneriaeth Cyfraith Gymunedol
Cyngor Sir Wrecsam (Tai a'r Economi)	Cyngor Sir Abertawe (Tai)
Rhaglen Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach Cymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Heddlu Dyfed Powys	Heddlu Gogledd Cymru
Cyngor Sir y Fflint	Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG
Teithio Ymlaen – Tros Gynnal Plant	Cyngor Sir Ceredigion

Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid Cymru	Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Caerdydd	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Grŵp Addysg Teithwyr Abertawe
Sipsiwn a Theithwyr Cymru	Cyngor Sir Powys
Heddlu Gwent	Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru	

Yn ogystal â'r ymatebion ysgrifenedig a restrir uchod, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda phobl o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws Cymru. Roedd yr ymgynghoriad wedi cynnwys cyfweliadau unigol ar un safle preifat a 6 safle Awdurdod Lleol a chynhaliwyd 5 grŵp ffocws gyda chymunedau gwahanol. I gyd, cafodd 48 o bobl o'r gymuned eu holi'n uniongyrchol fel rhan o'r broses ymgynghori. Roedd y sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Tros Gynnal Plant, hefyd wedi cynnal rhywfaint o ymgynghori ar wahân ond ychwanegol gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws Cymru a oedd yn golygu mai cyfanswm yr aelodau o'r gymuned a gafodd eu cyfweld oedd 94, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Cynhaliwyd hefyd dri gweithdy ymgynghori yng Nghyffordd Llandudno, Abertawe a Threfforest. Pwrpas y digwyddiadau hyn oedd gwella dealltwriaeth ymhlith y rhai a fynychodd er mwyn derbyn ymatebion ysgrifenedig gwybodus. Derbyniwyd sylwadau cyffredinol am yr ymgynghoriad drwy'r digwyddiadau hyn hefyd. Rhoddir rhestr o'r sefydliadau a anfonodd gynrychiolwyr i'r digwyddiadau hyn yn **Atodiad A.**

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Ei nod yw rhoi trosolwg ar hyd a lled yr ymatebion a rhoi syniad go lew o'r materion oedd yn codi amlaf. Er mai dim ond crynodeb byr o'r ymatebion y gall y ddogfen hon ei roi, mae pob ymateb wedi bod yn adnodd hollbwysig i Lywodraeth Cymru wrth fynd ati i ddatblygu'r ddogfen derfynol.

4. Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae'r ymatebion hyn i'r cynigion yn crynhoi sylwadau a dderbyniwyd drwy'r ymatebion ysgrifenedig, y sesiynau ymgynghori safle a'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ar draws Cymru.

4.1 Ydych chi'n cytuno â'r gweithredu yn 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr'? Rhowch resymau dros eich ateb yn y blwch sylwadau pellach os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Dywedodd 45% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn eu bod yn cytuno a 42% eu bod yn cytuno 'ar y cyfan' gyda'r gweithredu yn y cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr drafft. O weddill yr ymatebion, nid oedd 8% wedi nodi unrhyw farn ac roedd 5% yn anghytuno â'r cynigion.

O'r 87% oedd yn cytuno a chytuno ar y cyfan â'r cynigion, roedd amrywiaeth o sylwadau am y Cynllun a nifer o gwestiynau ac awgrymiadau ynghylch beth y dylai'r Cynllun terfynol efallai ei gynnwys neu beidio ei gynnwys. Ehangir ar lawer o'r pethau hyn o dan y crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad. Roedd rhai o'r sylwadau'n cynnwys cytuno gyda, a chefnogi nodau a chyfeiriad cyffredinol y Cynllun. Roedd gan y Cynllun ddyheadau cryf ond roedd yn fwy cryno, unffurf a chliriach na'i ragflaenydd. Er bod llawer o blaid amcanion strategol Llywodraeth Cymru, y teimlad at ei gilydd oedd bod y nodau'n gyffredinol iawn ac nad oeddent yn rhoi sylw penodol i sut y byddai llawer o'r problemau oedd yn effeithio ar y Gymuned yn cael eu datrys.

At ei gilydd, roedd y cynigion drafft yn cael eu croesawu ond awgrymwyd y byddai'r Cynllun yn elwa o naratif mwy cynhwysfawr fel yn y cynllun blaenorol 'Teithio at Ddyfodol Gwell' (TTABF). Byddai crynodeb byr o'r prif bethau oedd wedi'u cyflawni ers cyhoeddi TTABF hefyd yn ddefnyddiol. Roeddid yn cydnabod bod y Cynllun wedi'i ohirio gan gyhoeddiad Strategaeth Genedlaethol gyffredinol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb', ynghyd â dealltwriaeth fod nifer o'r camau gweithredu yn y Cynllun yn ymddangos i fod wedi dyddio erbyn hyn ac y byddai angen eu diweddaru cyn cyhoeddi'r Cynllun terfynol.

Teimlai *Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili* fod y cynigion yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes drwy TTABF ac yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer gwella hawliau a llesiant y gymuned ymylol hon ymhellach. Teimlai un Awdurdod Lleol fod y ddogfen yn cydnabod y prif feysydd oedd angen eu cryfhau ond ychwanegodd mai ymgysylltu gyda'r gymuned, yn y pen draw, oedd yr allwedd i wneud unrhyw gynnydd sylweddol ynghyd â rheoli barn y gymuned ehangach. Roedd rhai ymatebwyr wedi croesawu cynnwys Roma mudol yn y Cynllun ond teimlai eraill y dylai fod cyfres gwbl wahanol o gynigion ar gyfer y Grŵp hwn oherwydd bod gan bob cymuned wahanol anghenion a bod gan Roma fwy o rwystrau yn eu hwynebu o ran cyfraith mewnfudo a chael gafael ar wasanaethau.

Yn wahanol i farn eraill, dywedodd nifer o ymatebwyr fod y Cynllun yn rhy gyffredinol a heb ddigon o 'weithredu' gyda thystiolaeth o sut y byddent yn cael eu cyflawni a / neu'n cael eu cyflawni'n realistig. Roeddent yn teimlo y dylai'r gweithredu ganolbwyntio mwy ar flaenoriaethau strategol. Dywedodd un ymatebwr fod y Cynllun yn teimlo ei fod, efallai'n anfwriadol, yn ceisio newid diwylliant y cymunedau hyn gyda gormod o weithredu. Teimlai ymatebwr arall nad oedd y Cynllun yn newydd ond yn gasgliad o weithredu o Gynlluniau presennol eraill.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y farn na fydd y nodau a'r gweithredu cyffredinol efallai'n gweithio ar y ddaear oherwydd y gwahanol ddaearyddiaeth, cymunedau a chyd-destunau; roedd hefyd yn bwysig cydnabod mai 'proses dwy ffordd' oedd hyn – er y dylai cymdeithas wneud ei rhan i helpu'r bobl hyn, roedd angen iddynt hwythau hefyd geisio integreiddio mwy gyda chymdeithas.

O'r 5% oedd yn anghytuno â'r cynigion, y rhesymau a roddwyd oedd bod gan Deithwyr eu cymuned eu hunain ac nad oedd Llywodraeth Cymru'n deall eu diwylliant.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

Yn dilyn ymgynghori gyda phobl o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, daeth yn amlwg nad oedd y mwyafrif llethol o'r rhai a holwyd drwy ymweld yn ad-hoc â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi clywed am 'Teithio at Ddyfodol Gwell' o'r blaen.

Fodd bynnag, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ymgynghorol â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws Cymru. Daeth prosiect Teithio Ymlaen y rhaglen Tros Gynnal Plant, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, i fynychu a chefnogi'r rhain. Mae'r prosiect yn darparu gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth i'r cymunedau hyn. Roedd Tros Gynnal Plant hefyd wedi ymgynghori ar wahân drwy gynnal trafodaethau a grwpiau ffocws bach. Er bod llawer heb weld y ddogfen o'r blaen, roeddent yn teimlo bod cynllun 'newydd' yn syniad da ond roedd angen eu hargyhoeddi o hyd bod strategaethau'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'w bywydau bob dydd. Roedd llawer yn croesawu'r cyfle i gyfrannu a dweud eu dweud ond yn holi pa wahaniaeth y byddai'n ei wneud ac eisiau sicrwydd y byddai'r gweithredu a fyddai'n cael ei gytuno ar lefel Llywodraeth yn rhaeadru i lefel leol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau.

4.2 Ein nod yw bod gan bawb gyfle i gyflawni eu potensial a byw bywydau iach, ffyniannus a bodlon fel y medrant chwarae rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Roedd ystod amrywiol o ymatebion i'r cwestiwn hwn gan ddibynnu ar sut yr oedd y cwestiwn wedi cael ei ddehongli. Roedd yr ymatebion yn amrywio o awgrymiadau a sylwadau am faterion iechyd i gael mynediad at, a derbyn, addysg a mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth; o fod yn gallu byw mewn llety addas; neu o fod yn gallu integreiddio'n llawn a chyfranogi'n fwy effeithiol yn y cymunedau lle'r oeddent yn byw, ymhlith materion eraill.

O ran Addysg, roedd yn glir bod llawer o'r rhai a holwyd yn teimlo ei bod yn bwysig sicrhau bod diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael ei adlewyrchu yn yr amgylchedd ysgol; ond roeddent yn teimlo nad oedd digon o adnoddau i annog ac integreiddio dysgwyr yn iawn o fewn yr amgylchedd ysgol. Yn un o'r digwyddiadau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, gwnaed y pwynt nad oedd unrhyw gyllid wedi'i glustnodi yn y gyllideb addysg ar gyfer y cymunedau hyn. Teimlai llawer y byddai addysgu holl staff yr ysgol a disgyblion eraill am eu diwylliant yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ond teimlai eraill y gallai hyn greu amgylchedd mwy gelyniaethus gyda phlant a phobl ifanc o'r cymunedau hyn yn cael eu bwlio unwaith y byddai eu tarddiad ethnig yn dod yn hysbys, os nad ydoedd eisoes.

Cyfeiriodd *Estyn* yn benodol at yr argymhellion yn eu hadroddiad 'Addysg disgyblion Sipsiwn a Theithwyr' (Mawrth 2011) oedd yn pwysleisio bod gwella presenoldeb ac agweddau'r disgyblion hyn yn yr ysgol yn ffactorau pwysig i wella'r canlyniadau ar gyfer plant Sipsiwn a Theithwyr. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig cryfhau'r pwyslais yn y Cynllun ar roi sylw i'r materion penodol hyn. Roedd *Cyngor Sir y Fflint* wedi gwneud y pwynt bod parhau i ariannu gwasanaethau fel Tros Gynnal Plant a'r prosiect Teithio Ymlaen, ynghyd â Gwasanaethau Addysg Teithwyr, yn hanfodol i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i gyfranogi mewn addysg. Ychwanegodd y sefydliad *Partneriaethau Ymgyrraedd* fod angen mwy o gymorth i godi ymwybyddiaeth y cymunedau hyn o'r llwybrau addysgol mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch ac o'r rhwydwaith cymorth oedd ar gael.

O ran Iechyd, awgrymodd rai yn eu hymatebion y dylid ystyried sefydlu Swyddogion Cyswllt Iechyd i helpu i gryfhau'r berthynas rhwng y Gwasanaethau Iechyd a'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Gwnaed y pwynt y dylai fod un pwynt cyswllt ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol i ymdrin â'r materion sy'n effeithio ar y cymunedau hyn o ddydd i ddydd.

Gofynnodd rai byrddau iechyd am fwy o fanylion am yr hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb oedd mewn golwg, a phwy fyddai'n monitro a chofnodi'r nifer a fyddai'n manteisio ar yr hyfforddiant oherwydd nid oeddent eisiau gweld pwysau neilltuol yn cael eu rhoi ar y gwasanaeth.

Roedd y bwriad i gyflwyno categorïau tarddiad ethnig i systemau gweithredol lleol yn cael ei groesawu ac awgrymwyd cyflwyno Cynllun Gofal Iechyd penodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Awgrym pellach ynghylch iechyd oedd y dylai Awdurdodau Lleol gynnwys y cymunedau hyn yn eu cynlluniau iechyd a llesiant. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod gwasanaethau'n gyson rhwng gwahanol fwrdeistrefi / ardaloedd fel bod teuluoedd yn gwybod beth oedd ar gael wrth symud rhwng safleoedd.

Yn eu hymatebion, cododd nifer helaeth y mater o gyllid parhaus i gefnogi darparu swyddi Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ar ôl mis Mawrth 2018. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Cydgysylltwyr ehangu eu rolau i arwain yn fwy rhanbarthol ac i fod yn gyfrifol am gydgysylltu'r cymorth ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Teimlai *Cyngor Merthyr* na fyddai nodau'r Cynllun yn cael eu cyflawni heb ennill ymddiriedaeth y cymunedau hyn. Roedd gan eraill a holwyd farn debyg. Roedd hefyd angen mwy o waith i gryfhau'r berthynas rhwng gwahanol gymunedau.

Awgrymodd *Tros Gynnal Plant* fod angen dulliau cymunedol mwy dychmygus, fel digwyddiadau teuluol hwyliog, er mwyn codi ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chwalu rhwystrau gyda chymunedau eraill. Teimlent hefyd ei bod yn bwysig i hyfforddiant diwylliannol gorfodol fod ar gael ar gyfer aelodau etholedig sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch materion tai a / neu gynllunio, er enghraifft. Yn yr un modd, yn un o'r digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, awgrymwyd y dylai pobl o'r gymuned fynychu hyfforddiant i ddeall a gwerthfawrogi prosesau ac amserlenni llywodraeth leol yn well.

Teimlai Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ei bod yn bwysig gweithio gyda phobl o'r gymuned fel partneriaid cyfartal i gyd-ddylunio, cynhyrchu a darparu atebion a chryfhau eu cyfranogiad yn llwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol. Byddai hyn yn eu helpu i gyfranogi'n llawn mewn cymdeithas, yr economi ac mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Teimlai llawer fod hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ymgysylltu, i'r holl wasanaethau rheng flaen, yn arbennig o bwysig ac yn enwedig i'r rhai oedd yn cael y cyswllt agosaf â'r cymunedau hyn.
Roedd siarad gyda, yn hytrach na dweud wrth y cymunedau beth i'w wneud, yn gwbl greiddiol ynghyd â'u cynnwys mewn datblygiadau. Yn y cyswllt hwn, teimlai nifer o'r rhai a holwyd fod cael un pwynt cyswllt ar y safle a / neu er mwyn gallu cysylltu ag Awdurdodau Lleol a gwasanaethau eraill, yn hollbwysig.

Awgrymwyd bod angen cynrychiolwyr o'r gwahanol feysydd sy'n effeithio ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, i fod ar Fforwm Llety Cymru Gyfan ac y byddai hyn yn annog gwaith rhyngasiantaethol a thrafodaethau a gweithredu di-oed yn y meysydd perthnasol.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl o'r gymuned nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, gan gynnwys apwyntiadau meddyg teulu a deintydd. Roedd apwyntiadau weithiau'n anodd eu gwneud meddent, ond roedd hyn oherwydd diffyg apwyntiadau. Fodd bynnag, dywedodd bobl o'r gymuned mewn un ardal Bwrdd Iechyd Lleol eu bod yn teimlo bod gweithwyr iechyd wedi gwahaniaethu yn eu herbyn, oherwydd un tro nid oeddent wedi gallu sicrhau apwyntiad 'ar-alwad' gan eu meddyg teulu, ac ar un safle roeddent wedi cael gwybod na fyddai bydwragedd yn ymweld â'r safle ar gyfer archwiliadau cyn-geni ac yn hytrach y gofynnwyd i famau beichiog fynychu eu canolfan iechyd Dechrau'n Deg. Dywedodd bobl o'r gymuned yn bendant bod angen i fwy o ymwelwyr iechyd ddod i'r safleoedd i gyrraedd y bobl na fedrant deithio (oherwydd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus i'r safleoedd, dim car neu lwybrau troed). Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys y potensial i adeiladu mwy o adeiladau cymdeithasol ar safleoedd, fel y gallai pobl o'r gymuned ddatgelu materion iechyd yn breifat. Fodd bynnag, teimlai'r rhan fwyaf o'r bobl Roma a holwyd eu bod wedi profi gwahaniaethu wrth ddefnyddio gwasanaethau meddyg teulu a deintyddol, er enghraifft.

Awgrymwyd fod iaith yn rhwystr clir wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd ar adegau. Fodd bynnag soniwyd fod 'Llinell laith' yn opsiwn i ddatrys hyn a'i fod wedi gweithio'n effeithiol mewn meddygfeydd. Awgrymodd aelodau fod yn rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod meddygfeydd a staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd. Dywedodd pobl o'r gymuned wrth Tros Gynnal Plant fod 'balchder', ar adegau, yn gallu bod yn rhwystr sylweddol i adrodd mater difrifol cyn ei bod yn rhy hwyr. Roedd merched a dynion yn gofyn am gyngor gan eu cymuned ar lympiau neu newidiadau yn eu corff ac yn ei gadael yn rhy hwyr i ofyn am gymorth. Teimlai pobl o'r gymuned fod angen addysg ar beth i chwilio amdano gyda chanser y fron, y brostad a'r ceilliau, a mathau eraill o salwch. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod angen cymorth i lenwi ffurflenni meddygol gan awgrymu y byddai cardiau 'methu darllen' disylw yn fanteisiol i rai pobl o'r gymuned.

O ran addysg, y teimlad oedd y gallai addysgu plant ysgol yn y gymuned sefydledig ar ddiwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr fod yn wrthgynhyrchiol oherwydd y gallai dynnu mwy o sylw at wahaniaethau ac efallai arwain at fwlio. Dywedodd rhai bod eu plant wedi cael eu bwlio yn yr ysgol. Fodd bynnag, roedd un aelod o'r gymuned hefyd wedi penderfynu addysgu ei phlentyn gartref oherwydd bwlio gan blant Sipsiwn neu Deithwyr eraill am ddewis mynychu'r ysgol. Credai un unigolyn eu bod wedi cael eu "herlid" gan athro ysgol. Fodd bynnag, teimlai eraill a holwyd mewn digwyddiad ar wahân y byddai'n fanteisiol cynnwys llyfrau / gwybodaeth am eu diwylliant mewn ysgolion; byddai cael pobl o'r gymuned i ymweld ag ysgolion yn fanteisiol, yn ogystal ag ysgolion yn ymweld â'r safleoedd. Roedd pobl ifanc a

holwyd yn gweld yr ysgol fel rhywle lle dylai dysgu am eich hawliau a'ch cyfranogiad ddechrau ac y dylai ysgolion chwarae rôl weithredol mewn darparu hyfforddiant hawliau i fwy o blant. Dylai ysgolion roi gwybod i blant nad oeddent yn Deithwyr am ddiwylliant a hawliau'r gymuned. Roedd pobl ifanc hefyd yn meddwl y dylai fod gan eu teuluoedd fwy o lais.

Dywedodd *Tros Gynnal Plant* fod yr ymatebwyr yn dangos bod angen cymorth un-i-un yn aml ar y plant i'w helpu i ddal i fyny â'u cyfoedion. Teimlai rhai rhieni fod amser eu plant yn cael ei wastraffu mewn dosbarthiadau sy'n gwahanu plant Sipsiwn, Roma neu Deithwyr oddi wrth blant eraill, neu lle rhoddir cymorth neilltuol i helpu'r disgyblion hyn i ddal i fyny â phlant eraill. Teimlai rhai pobl o'r gymuned fod y dosbarthiadau hyn yn ddim mwy na "llyfrau lliwio a chwarae posau". Dywedodd rai pobl o'r gymuned nad ydynt yn meddwl bod angen astudio pynciau traddodiadol, e.e. Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, oherwydd na fyddent o fudd iddynt yn eu gyrfaoedd tebygol. Roedd un awgrym yn dweud bod angen cyflwyno pynciau mwy perthnasol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac y byddai hynny yn eu helpu i gredu bod lle iddynt mewn addysg. Gallai athrawon cynorthwyol yn y dosbarth helpu i'w darparu (naill ai o'r cymunedau hyn neu o rywle arall).

Weithiau, roedd diffyg cludiant ysgol yn rhwystr sylweddol i blant fynychu eu hysgol leol. Rhwystr arall o ran addysg oedolion oedd diffyg gofal plant a dywedodd rhai bod angen cael trefniadau gofal plant yn eu lle i annog cyfranogi mewn addysg. Roedd llawer o bobl ifanc o'r cymunedau hyn yn cael trafferth gyda gwaith cartref oherwydd nad oedd ganddynt gyfrifiaduron. Awgrymwyd y byddai cynllun i ystyried darparu cyfarpar yn helpu, hyd yn oed pe bai'n rhaid iddynt rannu. Awgrymwyd y gallai swyddog cyswllt ysgolion mewn ysgolion fod yn bwynt cyswllt rhwng yr ysgol, y cymunedau a'r gymuned sefydledig.

4.3 Rydyn ni eisiau i bawb fyw mewn cartref sy'n ateb eu hanghenion ac sy'n cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Roedd barn gyffredin pan oedd diffyg llety addas a phriodol gydag amodau byw da ac amwynderau sylfaenol, ei fod yn cael effaith andwyol mewn nifer o ffyrdd. Gallai effeithio ar ystod o feysydd fel iechyd a llesiant yn gyffredinol, mynychu'r ysgol, mynediad at hyfforddiant neu gyflogaeth, a gallai hefyd rwystro ymdrechion i feithrin cysylltiadau da rhwng cymunedau.

Awgrymodd un Awdurdod Lleol y dylid ystyried safonau ar gyfer llety a fyddai'n cael eu cymhwyso'n gyffredinol i sicrhau bod safonau cyson ar gyfer tai ac amodau byw, pa fath bynnag o gartref oedd yn cael ei ddewis. Teimlwyd y byddai parhau i gyflawni a monitro'r Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yn helpu i sicrhau bod anghenion oedd wedi'u hadnabod yn cael eu cwrdd – ond ei bod yn bwysig bod cyllid yn parhau i fod ar gael drwy'r grant cyfalaf i safleoedd er mwyn adeiladu safleoedd newydd ac ailwampio rhai oedd yn bodoli eisoes.

Teimlai rhai a holwyd ei bod yn bwysig bod pobl o'r gymuned yn gallu rhoi barn am adolygu a pharhau i fonitro'r asesiadau GTAA ac awgrymodd *Tros Gynnal Plant* fod angen cynhyrchu adroddiad adolygiad GTAA blynyddol hawdd ei ddarllen. Dywedodd *Tros Gynnal Plant* hefyd fod pobl o'r gymuned yn teimlo eu bod wedi eu heithrio o gynlluniau a strategaethau lleol ar gyfer 'Cartrefi i Bawb'. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai gan bobl o'r gymuned fwy o wybodaeth am y gwaith sy'n digwydd o dan y Grant Cyfalaf i Safleoedd a sut yr oedd yn cwrdd ag anghenion lleol. Roedd mater hefyd o fynediad at gartrefi symudol rhent

fforddiadwy o ansawdd da. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru wneud ymchwil i sut y gellid rheoli hyn yn well. Yn yr un cyswllt, roedd angen mynediad at dai o safon ar Roma mudol hefyd ond roedd trefniadau gosod anffurfiol yn atal hyn ar y funud.

Roedd nifer o'r rhai a holwyd yn unfarn, er mwyn dileu'r gwahaniaethu yr oedd pobl o'r gymuned yn ei brofi wrth ofyn am ganiatâd cynllunio, bod angen mwy o gymorth arnynt i ddefnyddio'r system gynllunio ac efallai sicrhau caniatâd cynllunio i ddatblygu safleoedd preifat. Ar hyn o bryd nid yw'r grant cyfalaf i safleoedd ar gael i ddatblygu safle preifat a gofynnodd rai a ddylid ailystyried hyn. Awgrymwyd y dylai Awdurdodau Lleol fod yn fwy atebol am sicrhau bod y cymorth perthnasol ar gael i ddatblygu safleoedd preifat. Awgrymwyd hefyd fod adolygiad blynyddol o geisiadau cynllunio gan Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei wneud.

O ran gwersylla diawdurdod a darparu safleoedd tramwy, gwnaed y sylw mai ychydig iawn o gynnydd oedd wedi'i wneud gyda datblygu safleoedd tramwy hyd yma. Y teimlad oedd y byddai gwell cyswllt â'r bobl sy'n eu defnyddio'n fanteisiol oherwydd mae'n debyg na fyddai'r 'defnyddwyr' yn breswylwyr rheolaidd mewn ardal awdurdod lleol benodol. Roedd hefyd yn gwbl greiddiol bod gan safleoedd tramwy'r cyfleusterau iawn, oedd yn ddiwylliannol dderbyniol.

Roedd rhanddeiliaid yn y digwyddiadau ymgysylltu ar draws Cymru'n credu bod angen cymorth mwy parod, cliriach a gwell ar gyfer ceisiadau cynllunio wrth gwblhau ceisiadau am safleoedd preifat. Roeddent o'r farn bod angen cyllid refeniw i gefnogi'r gwaith o reoli'r safleoedd yn gyffredinol, i sicrhau bod safonau da'n cael eu cynnal. Yn y pen draw, roedd yn hynod bwysig bod gwahanol anghenion digartrefedd y gymuned yn cael eu cwrdd mewn ffordd ddiwylliannol sensitif, drwy weithio gyda'r bobl a'u cynnwys ym mhob datblygiad a phenderfyniad ynghylch eu hanghenion llety. Roeddent yn pwysleisio bod angen safleoedd tramwy diogel, hygyrch a chyfreithlon mewn ardaloedd ar draws Cymru lle'r oedd angen a lle'r oedd yn ofynnol. Yn unol â hyn, roedd yn bwysig bod y grant cyfalaf i safleoedd yn ymateb i'r angen mewn ardal benodol, fel y bo'n berthnasol.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

Mynegodd pobl o'r gymuned mewn gwahanol ardaloedd eu rhwystredigaeth gyda pha mor anodd oedd cael caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd. Awgrymodd un aelod o'r gymuned y dylai fod Sipsi neu Deithiwr ifanc ar y pwyllgor cynllunio. Gwnaed y sylw fod llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn gwybod sut i adeiladu safleoedd preifat o ansawdd da ac yn teimlo bod y safonau'n well na rhai ar safleoedd cyngor lleol. Teimlai'r gymuned nad yw eu hawl i gartref yn cael ei hystyried yn gyfartal â hawliau pobl eraill yng Nghymru. Roedd angen i gymorth gwell a phrosesau mwy agored fod yn eu lle i ddileu'r gwahaniaethu a brofir ganddynt wrth ofyn am ganiatâd cynllunio. Dywedodd rai teuluoedd mai pur anaml oedd cynlluniau / strategaethau lleol a chan Lywodraeth Cymru i wella, darparu ac adeiladu llety newydd i bobl Cymru yn eu cynnwys –gan deimlo eu bod wedi eu heithrio o'r syniad o 'Gartrefi i Bawb'. Teimlai rai cymunedau na ddylent ddod o dan 'Hosteli a Digartref' oherwydd bod ganddynt gartref i fyw ynddo a lle parhaol i leoli eu cartref. Roedd mater hefyd o ran parhau i fuddsoddi mewn cynnal a chadw safleoedd oherwydd nid yw safleoedd Cyngor yn cael eu hystyried i fod yn dai cymdeithasol. Barn aelodau eraill o'r gymuned oedd nad yw rheolwyr tai prif ffrwd yn deall y gwahaniaeth wrth reoli'r safleoedd, er enghraifft, a bod angen trefniadau rheoli mwy pwrpasol a lleol mewn partneriaeth â'r gymuned neu'r teuluoedd sy'n byw ar y safle.

Roedd problemau ar y safleoedd y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys dim signal ffonau symudol a rhyngrwyd / band eang ar rai safleoedd. Dywedodd rai o nifer o wahanol safleoedd fod

unrhyw broblemau cynnal a chadw weithiau'n cymryd amser maith i gael eu datrys hefyd. Dywedodd un ferch a holwyd bod ei biliau trydan yn annuwiol o ddrud (tua £50 yr wythnos) ac na allai gael gafael ar unrhyw drefniant i'w lleihau ar hyn o bryd oherwydd nad oedd trefniadau bilio uniongyrchol rhwng y daliwr llain a'r cwmnïau ynni, gan ofyn am help gyda'r mater.

Dywedodd pobl o'r gymuned a fynychodd ddigwyddiad yn Ysgol Gynradd Maendy eu bod yn aml yn byw mewn eiddo is na'r safon heb fawr ddim rheolaeth ganddynt dros broblemau cynnal a chadw oherwydd agwedd eu landlordiaid at welliannau. Roeddent yn teimlo bod landlordiaid yn aml yn codi rhenti uchel yn yr ardal leol.

O ran safleoedd tramwy, teimlai pobl o'r gymuned fod angen mwy o safleoedd tramwy arnynt er bod angen eu cynllunio'n iawn a'u lleoli yn y lle iawn. Roedd hefyd angen gwahanol safleoedd tramwy ar gyfer gwahanol gymunedau. Lle darperir safleoedd tramwy, pwysleisiodd pobl o'r gymuned fod angen wardeniaid ac y dylid eu monitro'n iawn, oherwydd gallai teuluoedd eraill alw heibio a naill ai creu gwrthdaro neu orfodi teuluoedd eraill i symud, gan ddileu pwynt y safle tramwy. Ond i'r gwrthwyneb, dywedodd rai pobl o'r gymuned nad ydynt yn teimlo bod angen safleoedd tramwy oherwydd bod ganddynt eu mannau aros anffurfiol eu hunain. Roedd pryderon a phroblemau posib yn cynnwys a fyddai casgliadau bin i symud gwastraff ac a fyddai lle diogel i'r plant gael chwarae. Gofynnodd un aelod o'r gymuned hefyd pwy a fyddai'n symud teuluoedd ymlaen ar ôl i'w hamser ar y safle ddod i ben.

4.4 Rydyn ni eisiau gweld sector gofal cymdeithasol cynaliadwy o safon uchel yng Nghymru, gyda gwasanaethau ataliol ac integredig yn y gymuned, yn helpu pobl i fyw bywydau annibynnol. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Awgrymwyd y dylai'r holl staff yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac mewn meysydd cysylltiedig fel yr heddlu a'r gwasanaethau meddygol dderbyn hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Awgrymwyd y byddai integreiddio'r cymunedau hyn o fewn digwyddiadau mwy prif ffrwd yn y gymuned sefydledig yn helpu pawb i ddeall anghenion a gwahaniaethau diwylliannol ei gilydd yn well. Gallai hyn gynnwys addysgu cymunedau am ba gymorth oedd ar gael iddynt a darparu rhaglen o ymweliadau safle rheolaidd gan asiantaethau cymorth ynghyd â pharhau i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Roedd dull amlasiantaethol lleol a chenedlaethol hirdymor yn farn gyffredin ymhlith nifer o'r rhai a holwyd. Fodd bynnag, oherwydd llythrennedd is ymhlith rhai pobl o'r gymuned, roedd llawer o wasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau symudol a sefydlog hanfodol) yn cael eu 'colli' gan y bobl hyn.

Dywedodd un Awdurdod Lleol y dylid ystyried darparu cyllid ychwanegol ar gyfer rolau cyswllt / cyfryngu a allai helpu i gydbwyso'r cymorth a'r mynediad at wasanaethau hanfodol. Yn y cyswllt hwn dywedodd un Awdurdod Lleol, lle'r oedd gan Awdurdodau Lleol swyddogion cyswllt eisoes, y byddai ganddynt rôl i'w chwarae mewn cyfrannu at y nod o adeiladu pontydd rhwng gwasanaethau a phobl o'r gymuned. Roeddent hefyd yn pwysleisio bod angen sicrhau bod gwasanaethau i oedolion, pobl hŷn a phobl anabl, a gwasanaethau i blant, yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun terfynol.

Teimlai *Tros Gynnal Plant* y dylai'r man cychwyn roi sylw i'r diffyg ymddiriedaeth a deimlai'r cymunedau hyn ac i sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n fwy rhagweithiol a chadarnhaol i ddangos y mathau o gymorth oedd ar gael, er enghraifft i bobl hŷn, rhai gydag anableddau a hefyd i blant a phobl ifanc. Ar yr un pryd, roedd angen i'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn fwy diwylliannol ymwybodol a phriodol, a chydnabod hefyd gwerthoedd, cryfderau a gwydnwch y teuluoedd yn y cymunedau hyn. Cyfeiriodd *Tros Gynnal Plant* at ymchwil diweddar yn Lloegr a ddangosodd fod mwy o blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu rhoi mewn gofal neu'n cael eu mabwysiadu, gan gyfrannu at y diffyg ymddiriedaeth a'r teimlad bod y teuluoedd hyn yn cael eu barnu'n wahanol. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig i'r Gwasanaethau Plant edrych yn fwy gofalus ar y mater hwn, a dim ond yng Nghymru. Dywedodd *Tros Gynnal Plant* hefyd y bydden nhw'n croesawu mwy o ymchwil a fyddai yn y pen draw'n darparu mwy o gymorth i aelodau ifanc o'r cymunedau hyn oedd yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Yn y digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, adleisiwyd nifer helaeth o'r sylwadau a'r awgrymiadau ysgrifenedig. Roedd barn gyffredin, er enghraifft, fod angen cymorth ar bobl o'r gymuned i ddeall eu hawliau ac i gael gwybod am y rhwydweithiau cymorth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

At ei gilydd, roedd pobl o'r gymuned a fu'n gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn teimlo'n gadarnhaol am eu profiadau, ac eithrio un a deimlai fod plentyn eu cymydog wedi cael ei roi mewn gofal yn ddiangen. Y prif reswm dros ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol oedd er mwyn sicrhau gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer aelodau hŷn o'r teulu, ac ymaddasu i'w hamodau byw.

Fodd bynnag, teimlai rai pobl o'r gymuned a siaradodd â *Tros Gynnal Plant* eu bod yn ddiweddar yn cael eu targedu gan y gwasanaethau cymdeithasol, a bod plant o'r gymuned yn cael eu "mabwysiadu dan orfod". Roeddent yn credu bod hyn oherwydd diffyg dealltwriaeth o'u diwylliant a'u bod yn cael eu gorfodi i fyw mewn ffordd oedd yn ymgorffori canllawiau'r gweithwyr cymdeithasol, gan greu rhwystrau iddynt aros yn driw i'w diwylliant.

4.5 Rydyn ni eisiau sicrhau nad yw problemau iechyd meddwl yn rhwystr i gyflawni potensial ym mhob rhan o fywyd. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Pwysleisiwyd fod gweithredu Iechyd Meddwl yn fwlch pwysig yn *Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr.* Roedd iechyd meddwl yn cael ei weld fel rhwystr mawr i gyflawni potensial mewn bywyd yn y cymunedau hyn. Fel y casglwyd o ymgynghori â phobl o'r gymuned mewn digwyddiadau ymgysylltu ac ymweliadau ad-hoc, y consensws oedd bod y stigma ynghlwm wrth bopeth yn ymwneud ag iechyd meddwl yn rhywbeth nad oedd y gymuned eisiau ei drafod. Gyda lefelau uchel o iechyd meddwl ac iselder yn y gymuned, awgrymwyd y dylid darparu gwasanaeth allgymorth a / neu wasanaeth cymorth iechyd mwy hyblyg mewn ffordd na fyddai'n creu stigma, i'r rhai oedd ei angen arnynt.

Dywedodd *Cyngor Torfaen* fod stigma mawr ynghlwm wrth iechyd meddwl ymhlith y grŵp yma o unigolion, sy'n aml yn gallu bod yn rhwystr sylweddol i ddefnyddio gwasanaethau. Am y rhesymau hyn, roedd yn hollbwysig bod gweithwyr / cysylltiadau allweddol yn cael eu

sefydlu er mwyn datgelu a gweithredu ar unrhyw bryderon. Cytunwyd y byddai cyllid ychwanegol a hyrwyddo gwasanaethau iechyd meddwl yn helpu i ddileu'r stigma ac yn gweithredu fel adnodd i adnabod yr arwyddion cynnar ac atgyfeirio achosion yn gynnar. Eto, fel y soniwyd yn flaenorol, roedd llawer o'r farn y byddai creu swyddog cyswllt / cyfryngu'n helpu i gefnogi'r holl faterion a heriau iechyd yn y gymuned, gan gynnwys i gefnogi anawsterau iechyd meddwl a'r her o leihau'r stigma a'r rhagfarn gysylltiedig.

Roedd *Cyngor Merthyr* o'r farn bod yn rhaid torri'r cylch a bod ymyrryd yn gynnar yn allweddol i wneud hyn – roedd addysg gynnar mewn ysgolion yn gwbl greiddiol. Ar y cyd â hyn, roedd gweithgarwch corfforol hefyd yn bwysig er mwyn gwella siawns y bobl hyn o fyw bywydau mwy iach ac egnïol.

Teimlai llawer o'r rhanddeiliaid proffesiynol yn y digwyddiadau ymgysylltu ymgynghorol fod ynysu'n ffactor mawr yn hyn o beth, yn enwedig ymhlith merched ac yn enwedig oes oedden nhw'n byw'n anfodlon mewn tai brics a mortar. Roedd diffyg trafnidiaeth er mwyn gallu cyrraedd gwasanaethau hefyd yn thema gyson. Yn debyg i sylwadau tebyg yn yr ymatebion ysgrifenedig, teimlwyd y byddai hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol o oedran cynnar yn helpu i gefnogi iechyd meddwl a chorfforol da. Gallai'r syniad o greu modelau rôl ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr hefyd helpu i chwalu'r rhwystrau stigma, gydag ymddiriedaeth yn cyfrannu'n bwysig gan efallai arwain at ddatgelu.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

Awgrymwyd yn eang fod dynion yn y cymunedau hyn yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl. Awgrymwyd fod stigma'n dal i fod ynghlwm â'r peth. Er i lawer gadarnhau eu bod yn gwybod y gallent, yn y lle cyntaf, fynd i weld eu meddyg teulu lleol i drafod unrhyw broblemau iechyd meddwl, teimlai aelod o'r gymuned yn Sir Benfro fod diffyg cymorth i ddynion sy'n delio ag unrhyw broblemau iechyd meddwl yn yr ardal. Roedd awgrymiadau ynghylch sut i oresgyn y rhwystrau hyn yn cynnwys hyfforddiant pwrpasol i nyrsys iechyd meddwl a hyrwyddo ymyrryd yn gynnar yn yr ysgol i'r gymuned.

Wrth gynnal y digwyddiadau ymgynghori, dywedodd bobl o'r gymuned wrth *Tros Gynnal Plant* fod adrodd trais yn y cartref yn cynyddu'n araf deg. Un rhwystr sylweddol i beidio ag adrodd yw'r ffaith bod merched yn poeni y gallai eu plant gael eu rhoi mewn gofal. Dywedodd un person ifanc mai'r broblem oedd eu bod yn cadw pethau iddynt eu hunain ac felly nad oeddent yn derbyn cymorth pan oedd ei angen arnynt.

4.6 Dylai pawb fod wedi ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd a chyfle i ddysgu sgiliau newydd drwy eu bywyd gwaith. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Roeddid yn cydnabod mai hunangyflogaeth yn aml oedd y dewis cyntaf, yn hytrach na bod yn gyflogedig gan gwmni neu fusnes. O'r herwydd, roedd llawer o bobl ifanc o'r cymunedau hyn yn cael eu hannog i ymuno â'r busnes teuluol, gan dueddu i fod yn barod i weithio'n ifanc iawn. Roedd barn gref fod angen cymorth ar blant i fynychu ac aros mewn addysg llawn amser. Er mwyn gwneud hyn, roedd angen rhoi sylw i'r broblem o bresenoldeb isel yn yr ysgol er mwyn torri'r cylch o fod ar gyrion cymdeithas.

Teimlwyd fod addysg blynyddoedd cynnar a chyfnod sylfaen yn hanfodol gan weithredu fel blociau adeiladu i addysgu plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd rhaglenni prif ffrwd cysylltiedig fel 'Dechrau'n Deg' bob amser yn mabwysiadu dull hyblyg na'n cydnabod y cymorth ychwanegol sydd efallai ei angen ar y cymunedau hyn.

Teimlai nifer o'r rhai a holwyd y gallai cynnwys y cymunedau hyn ym mywyd eu hysgolion lleol agor y drws i gyfoeth o gyfleoedd a rhagolygon gyrfaol, nid yn unig i'r plant a'r bobl ifanc eu hunain ond hefyd i'w rhieni ac aelodau eraill o'u cymunedau. Gallai cyfranogi mewn ymweliadau addysgol, er enghraifft, a / neu weithgareddau allgyrsiol arwain at wella addysg, gwybodaeth a sgiliau a fyddai nid yn unig yn helpu pobl o'r gymuned i gefnogi eu plant a'u teuluoedd ond hefyd yn rhoi'r sgiliau sydd ei angen arnynt i gael gafael ar hyfforddiant, prentisiaethau neu gyflogaeth. Roedd cydweithwyr o'r heddlu hefyd yn gofyn tybed a oedd rôl i Raglen Ysgolion Cymru Gyfan ei chwarae gyda chau'r bwlch mewn canlyniadau addysgol ar gyfer y cymunedau hyn. Teimlwyd hefyd fod y syniad o ddefnyddio modelau rôl o'r gymuned i hyrwyddo negeseuon am gyflawni a dyheadau mewn ysgolion, ac i raeadru'r negeseuon hyn, yn syniad da y gellid ei ddatblygu ymhellach.

Awgrymodd y sefydliad '*Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach'* y gallai datblygu cyfleoedd pellach yn y gymuned, lle byddai'r dysgu a'r sgiliau'n mynd at y dysgwyr, yn helpu i annog unigolion i gyfranogi a pharhau i ddysgu.

O ran llwyddo i ddod o hyd i waith, prentisiaeth neu hyd yn oed hyfforddiant, roedd sylwadau rhai o'r ymatebwyr yng nghyswllt y cwestiwn hwn yn adlewyrchu'r sylwadau a glywsom yn gyson yn y digwyddiadau ymgysylltu gyda'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Y sylwadau oedd bod y gymuned, yn hanesyddol, wedi cael trafferthion sylweddol yn cael gafael ar neu'n defnyddio hyfforddiant, prentisiaethau neu gyflogaeth unwaith y daeth y darparwr i wybod o darddiad ethnig yr ymgeisydd, neu eu cyfeiriad, neu'r ddau; neu'r ffaith na allent ddarparu cyfeiriad o gwbl. Mewn ymateb i hyn, awgrymodd gwpwl o'r rhai a ymatebodd fod cyflogwyr yn ystyried cyflwyno recriwtio 'yn ddall i gyfeiriad'.

Roedd y rhai a holwyd yn ategu a chefnogi'n llwyr fod angen mynediad cyfartal at swyddi a'r farchnad lafur. Soniwyd am y syniad o ffeiriau gwaith ar safleoedd neu gerllaw iddynt, ac yn enwedig y gallai ffair flynyddol a gynhaliwyd yn Shirenewton, Caerdydd, gael ei chynnal eto. Roedd nifer o gyflogwyr wedi mynychu'r ffair, gan gynnwys y gwasanaethau Tân, Ambiwlans, Heddlu, Iechyd, Ysgolion, Addysg, wardeniaid cŵn a cheffylau etc, i godi ymwybyddiaeth, addysgu a rhoi gwybodaeth am gyfleoedd a rhagolygon.

Teimlai rai a holwyd y gallai'r 'Cynnig Gofal Plant' sy'n cael ei dreialu gan Lywodraeth Cymru helpu i annog a chefnogi'r cymunedau hyn i fynd i weithio, ar yr amod ei fod yn cael ei lansio ochr yn ochr â mesurau eraill gan gynnwys cymorth, cyngor ac arweiniad ar gyfleoedd ac argaeledd gwaith posib. Roedd eraill o blaid y syniad ond yn teimlo na fyddai'n llwyddiant mawr oherwydd normau diwylliannol a rolau'r rhywiau.

Barn y mwyafrif yw bod anawsterau gwirioneddol o hyd gyda sefydlu a sicrhau cymorth llythrennedd a chynhwysiant digidol, oedd yn gwbl greiddiol er mwyn datblygu'r sgiliau sydd ei angen ar bobl o'r gymuned i fod mewn sefyllfa i ymgeisio am, a chael swydd. Gallai gwybod sut i gael gafael ar gyfleoedd gwaith fod yn anodd iawn ynddo'i hun, i rai oedolion yn y gymuned.

Roedd problemau gyda band eang a'r diffyg cymorth yn gyffredinol ar gyfer sgiliau TG etc, yn golygu bod angen cymorth yn aml ar bobl o'r gymuned i ymarfer eu hawliau, gan gynnwys i

gael gafael ar fudd-daliadau, credyd cynhwysol a rhaglenni gwaith / ceisio gwaith. Roedd daearyddiaeth y safleoedd a'r diffyg cysylltiadau trafnidiaeth yn gwaethygu'r sefyllfa.

Roedd rhai a fynychodd y digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid proffesiynol yn ailadrodd llawer o'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig. Teimlent hefyd fod gallu cael gafael ar lety addas yn effeithio'n sylweddol ar fynychu unrhyw fath o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gwnaed y pwynt ganddynt nad oedd gorfodi sgiliau newydd ar y cymunedau hyn yn briodol gan awgrymu'n hytrach bod angen gwella, ymestyn ac adeiladu ar eu sgiliau presennol (a thraddodiadol efallai).

Teimlent ei bod yn bwysig gweithio'n agos â'r cymunedau a'u cynnwys yn y penderfyniadau am eu haddysg, sgiliau a'u dyfodol; eu cynorthwyo, er enghraifft, i gychwyn eu busnesau eu hunain neu i ardystio eu sgiliau er mwyn gallu cyflawni gwaith mewn ffordd ddiogel a chyfreithlon.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

Dywedodd nifer sylweddol o'r rhai a holwyd eu bod hwy'n bersonol, neu berthynas iddynt, wedi profi gwahaniaethu wrth ymgeisio am swyddi ar ôl datgelu eu cyfeiriad. Mewn un achos, roedd ymatebwr wedi dod o hyd i waith ond yna wedi cael ei ddiswyddo ar ôl i'w cefndir ddod i'r amlwg. Awgrymodd rai ymatebwyr y gallai ceisiadau 'dall i gyfeiriad' fod yn rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol. I'r gwrthwyneb, dywedodd un ymatebwr y byddent yn hoffi gweld 'GRT' fel opsiwn tarddiad ethnig ar geisiadau am swyddi.

O ran hyfforddiant, dywedodd un ymatebwr fod ei mab wedi mynd i'r coleg i ennill cymwysterau ond na chafodd gyfle i wneud cais am brentisiaeth oherwydd bod "cyflogwyr yn gwybod pwy ydyn ni" a'u bod felly'n gyndyn o gynnig cyfleoedd. Dywedodd yr un teulu fod aelodau hŷn o'r teulu wedi eu cymell o beidio ag astudio oherwydd eu bod yn credu na fyddai cyflogwyr yn eu cyflogi. Awgrymwyd y byddai rhyw fath o ddiwrnod(au) agored neu ffeiriau gyrfaoedd yn helpu i gael pobl i gymryd rhan / cyfranogi, a hefyd i roi cyngor ar bwy oedd yn gymwys i dderbyn budd-daliadau. Awgrym arall oedd sesiynau allgymorth; gallai amrywiol sefydliadau fynd i'r safleoedd i roi gwybod am y cymorth sydd ar gael, er y derbyniwyd na fyddai hyn efallai'n ymarferol iawn. Awgrymodd un aelod o'r gymuned y gellid ystyried cyrsiau blasu byr ynghyd â mynediad at gymwysterau galwedigaethol.

Codwyd hefyd y mater o argaeledd / mynediad at brentisiaethau yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r posibilrwydd o gysgodi yn Llywodraeth Cymru i ennill dealltwriaeth ddefnyddiol o weithio yn y sector cyhoeddus.

4.7 Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod gymaint o Sipsiwn, Roma a Theithwyr â phosib yn ymwybodol o'r cynigion yn 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' ac yn eu deall. Yn eich barn chi, beth fyddai'r ffordd orau o gyfathrebu'r ddogfen gyhoeddedig i bobl yn y cymunedau hyn ac a oes angen gwahanol ddulliau cyfathrebu ar gyfer pob cymuned?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Ar y cyfan, y consensws oedd mai'r cyfryngau cymdeithasol, y we / gwefan a chyswllt wyneb yn wyneb drwy fudiadau gwirfoddol oedd y dulliau gorau mae'n debyg o gyfathrebu'r ddogfen gyhoeddedig derfynol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Aeth rhai ymatebion yn bellach a dweud bod y cyfryngau cymdeithasol a'r we yn debygol o gyrraedd mwy o bobl

ifanc yn unig, ac y gallai mudiadau gwirfoddol roi negeseuon allweddol wyneb yn wyneb i'r genhedlaeth hŷn, drwy eiriolaeth. Gwnaed awgrym pellach y dylai negeseuon allweddol y ddogfen gyhoeddedig gael eu rhoi'n uniongyrchol wyneb yn wyneb gan Lywodraeth Cymru drwy grwpiau ffocws ac o ddrws i ddrws. Ond gwnaed y pwynt y dylai unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb fod drwy rywun y gallai'r cymunedau ymddiried ynddynt.

Cynigiodd sawl ymatebwr y syniad o gyflwyno ffilm neu fideo byr i roi ciplun o'r prif themâu yn y ddogfen gyhoeddedig. Byddai wrth gwrs angen ystyried ei gyflwyno mewn gwahanol ieithoedd, a'r ddogfen gyhoeddedig ei hun. Gallai dosbarthu fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen i safleoedd, eto gan berson y gallent ymddiried ynddynt, weithio'n dda oherwydd yn aml iawn nid oedd pethau a bostiwyd i'r safleoedd yn cyrraedd y cartrefi unigol.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cyflwyno'r ddogfen a / neu'r negeseuon allweddol drwy eu cyhoeddi yn y Travellers Times, drwy Ffederasiwn Cenedlaethol y Grwpiau Cyswllt Sipsiwn, Mudiad y Teithwyr a thrwy Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr.

Roedd dau ymatebwr yn teimlo mai dim ond pobl o'r gymuned a allai ateb y cwestiwn hwn.

Yn ogystal â'r uchod, roedd syniadau eraill a gynigiwyd gan gydweithwyr a fynychodd y digwyddiadau ymgysylltu'n cynnwys y syniad o neges 'sain', pecyn gwybodaeth (y byddai'n rhaid efallai ei ddosbarthu i'r safleoedd a'i egluro), ffilm neu DVD byr yn cynnwys pobl o'r cymunedau, sioe deithiol gyda rhywle i holi pobl yn breifat, a thaflen / llyfryn bychan yn nodi'r prif themâu.
Gwnaeth rhanddeiliaid y pwynt fod gan bawb ddyletswydd (amlasiantaethol) i hyrwyddo'r ddogfen gyhoeddedig. Wedi dweud hynny, roedd yn bwysig defnyddio a sicrhau cyfathrebu wyneb yn wyneb cyson gan bobl y gallai'r gymuned ymddiried ynddynt, fel y Gwasanaethau Addysg Teithwyr. Teimlent y byddai'n gyfle da defnyddio cynulliadau mawr o bobl o'r gymuned, fel ffeiriau, fel y byddai cymaint o bobl o'r gymuned â phosib yn dod yn ymwybodol o'r cynigion. Ac yn olaf, teimlwyd y byddai dosbarthu drwy'r Awdurdodau Lleol yn opsiwn.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

Awgrymodd bobl o'r gymuned y gallai'r ddogfen derfynol gael ei rhaeadru drwy eu hawdurdodau lleol. Ymhlith yr awgrymiadau eraill oedd hysbysu'r ddogfen gyhoeddedig drwy'r cyfryngau cymdeithasol, neu hyd yn oed drwy greu DVD byr, fel yr awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.8 Allwch chi feddwl am unrhyw effeithiau ychwanegol (da neu ddrwg) y gallai'r ddogfen hon eu cael ar yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb neu Hawliau Plant? I'ch cynorthwyo, bydd angen i chi gyfeirio at yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Plant sy'n dod gyda'r holiadur hwn. Eglurwch eich barn gan awgrymu sut y dylid efallai diwygio'r ddogfen er mwyn cynyddu ei heffeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Gwnaed y pwynt fod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gymunedau tra gwahanol ac nad oedd eu trin yn unffurf ac fel un gymuned yn adlewyrchu amrywiaeth ac arwahanrwydd eu diwylliannau.

Roedd rhai'n rhannu'r farn y dylid cyflawni'r gweithredu yn y ddogfen mewn ffordd oedd yn adlewyrchu anghenion gwahanol y cymunedau hyn ac y dylid teilwrio'r gweithredu i'w hanghenion penodol. Teimlwyd fod angen gwaith pellach i sicrhau nad oedd credoau diwylliannol yn rhwystro'r gymuned rhag elwa o'r cynigion.

Roedd barn hefyd fod efallai angen mwy o gymorth ar ffurf cyngor neu eiriolaeth i gefnogi Roma oedd newydd gyrraedd, ac a allai fod mewn perygl o ddisgyn allan o'r system fudd-daliadau, yn enwedig os oeddent newydd golli neu'n methu dod o hyd i gyflogaeth sicr.

Roedd *Cyngor Caerffili* yn credu y byddai'r Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg, materion cydraddoldeb a hawliau plant. Fodd bynnag, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r materion yr oedd Llywodraeth Cymru'n ceisio rhoi sylw iddynt drwy'r Cynllun hefyd yn effeithio ar rannau eraill o gymdeithas, teimlai'r Cyngor mai'r ffordd orau o ddarparu llawer o'r gweithredu fyddai drwy ddull mwy trosfwaol o hyrwyddo ffyniant a llesiant i bawb.

Roedd nifer a fynychodd y digwyddiadau i randdeiliaid proffesiynol wedi ailadrodd y pwynt ei bod yn bwysig cydnabod a chaniatáu ar gyfer y llythrennedd is sydd gan rai pobl yn y cymunedau hyn. Felly roedd angen i'r cyfathrebu a'r iaith fod yn syml, a lle'r oedd hynny'n bosib, drwy luniau.

Gwnaed y sylw y gallai'r Iaith Gymraeg fod yn rhwystr i deuluoedd nad oedd ganddynt unrhyw brofiad o'r iaith ac felly ei bod yn bwysig nad oedd disgyblion yn cael eu cymell i beidio ei dysgu. Teimlent ei bod yn bwysig, er mwyn parchu diwylliant a ffordd o fyw'r Sipsiwn, Roma a Theithwyr, cynnig dewisiadau i'r cymunedau hyn, er enghraifft addysg ysgol neu ofalu am y cartref.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

Roedd pobl o'r gymuned yn gefnogol o hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn eu cymunedau gan gytuno pe bai dosbarthiadau nos yn cael eu cynnig, y byddai pobl o'r gymuned mae'n debyg yn cymryd rhan. Awgrym arall oedd y gallai pobl Cymraeg eu hiaith o'r cymunedau hyn siarad ar ffilm gyda golwg ar newid argraffiadau pobl.

4.9 Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i ddweud amdanynt.

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

Dywedodd rai a holwyd eu bod yn anfodlon â theitl y ddogfen newydd oedd mewn golwg. Awgrymodd *Estyn* ei newid i "Gweithio Gyda Sipsiwn, Roma a Theithwyr" a fyddai'n adlewyrchu rhoi rôl i'r cymunedau hyn mewn datblygu a gweithredu newydd, gan gynnwys eu dyheadau i'r dyfodol am gynyddu eu cyfranogiad mewn addysg a chyflogaeth.

Dywedodd *Tros Gynnal Plant* y byddai colli'r teitl 'Teithio at Ddyfodol Gwell' yn cael rhai effeithiau negyddol ond roeddent yn obeithiol y byddai nodau'r Cynllun newydd yn cael eu cyfathrebu mewn ffordd hygyrch, gyda chynnydd yn cael ei adolygu a'i fonitro'n hawdd. Roedd peth anesmwythyd gyda'r bwriad o gyfuno cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o dan un ddogfen a hefyd bod llai o gyfeiriadau penodol, a chyfeiriadau anghyson, at Roma drwy gydol y ddogfen.

Cafwyd cais i gryfhau'r gweithredu i fynd i'r afael â throseddau casineb drwy gynnwys mesurau i sicrhau y cofnodir troseddau casineb sy'n ymwneud yn benodol â Sipsiwn, Roma a Theithwyr a bod gwaith ehangach yn cael ei gynnwys yn y gweithredu.

Roedd galwad hefyd am ganllawiau newydd ar gyfer mannau aros dros dro fel rhan o'r cylchlythyr newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Sioe. Hefyd y dylid ystyried effaith y galw am safleoedd yng Nghymru, yng ngoleuni newidiadau i'r system gynllunio yn Lloegr sy'n cymryd nad yw unigolyn yn Deithiwr os nad ydynt yn teithio mwyach.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am nifer o feysydd penodol eraill, gan gynnwys canllawiau ar safleoedd tramwy a'r materion cysylltiedig o groesi ffiniau awdurdodau lleol, a hefyd am ddulliau mwy cyson ac uniongyrchol o filio am gyfleustodau ar safleoedd preswyl.

Tynnwyd sylw hefyd at nifer o fylchau yn y ddogfen yng nghyswllt gweithredu a meysydd eraill posib. Roeddent yn cynnwys:

Sut y bydd Brexit yn effeithio ar y cymunedau hyn; y dylid cynnwys cyfranogi mewn chwaraeon; Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Pobl Hŷn; Anabledd; Lleihau Troseddu; Lles Anifeiliaid; a Lleihau Profiadau Andwyol mewn Plentyndod.

Crynodeb o'r ymatebion gan bobl o'r gymuned

Yn ogystal â'r cwestiynau a godwyd, teimlai un ymatebwr o'r Trallwng y byddai'n fanteisiol pe bai 7-8 o ferched o'r gymuned a 7-8 o ferched o'r gymuned sefydledig yn dod at ei gilydd i ddeall barn ei gilydd am amrywiaeth o bethau ac addysgu'r naill a'r llall. Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid cael digwyddiad hwyliog wedi'i gydgysylltu / hwyluso gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i hyrwyddo cyswllt a gwella'r berthynas â'r gymuned ehangach. Awgrym arall oedd lansio gwefan debyg i Facebook yn iaith y cartref, a allai fod yn ddefnyddiol. Gallai'r wefan gynnwys clipiau fideo byr yn egluro sut i dderbyn budd-daliadau a gwasanaethau fel meddygon a deintyddion (ac efallai darllen i'r person yn iaith y cartref os oedd hynny'n opsiwn).

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at eu cyswllt gyda'r heddlu. Teimlai rai y byddai presenoldeb PCSO yn ffordd dda o gynnig cymorth. Dywedodd ymatebwr arall fod PCSO yn dod i'w safle unwaith y mis i drafod unrhyw broblemau. Dywedodd ymatebwr o'r gymuned Roma fod teimlad cyffredinol y byddai'r heddlu ar ochr dinasyddion Cymru mewn unrhyw anghydfod. Awgrymwyd y byddai un pwynt cyswllt Heddlu (SPOC) ar leoliad hirdymor yn fanteisiol.

Dywedodd bobl o'r gymuned eu bod yn teimlo fod pobl eraill yn gwahaniaethu yn eu herbyn mewn rhai mannau cyhoeddus fel tafarndai a thai bwyta. Cawsant hefyd brofiad o wahaniaethu gan dacsis yn gwrthod dod i'r safle, a dosbarthwyr nwyddau. Teimlent hefyd fod y gymuned ehangach yn amharchus ohonynt oherwydd eu hacenion. Lleisiodd bobl o'r gymuned Roma bryderon am effeithiau Brexit a'r goblygiadau posib i'w cymuned.

Dywedodd nifer o'r rhai a holwyd fod angen mwy o gyngor ar fudd-daliadau a'r system Credyd Cynhwysol newydd – a fyddai'n berthnasol i garafanau a thir llain, er enghraifft. Pwysleisiwyd hefyd fod banciau bwyd yn cael eu defnyddio ond y byddai mwy'n eu defnyddio pe bai llai o gywilydd ynghylch y peth a phe bai ffordd fwy preifat o'u defnyddio.

Dywedodd un aelod o'r gymuned nad oedd y Cynllun yn cynnwys unrhyw beth am chwaraeon gan awgrymu y gallai ffigwr chwaraeon allweddol o'u cymuned, Samson Lee, arwain ymgyrch chwaraeon i annog eraill i gymryd rhan.

5. Sylwadau Cloi

Ar y cyfan, dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod cefnogaeth i'r cynigion *Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr* drafft. Mae'r materion a godir uchod wedi rhoi nifer o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru wneud gwelliannau i fersiwn derfynol y ddogfen. Er y derbyniwyd rhai awgrymiadau'n gwrthddweud ei gilydd, roedd consensws ynghylch nifer o bethau.

Dymunwn ddiolch i bawb a gymrodd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad drwy anfon ymateb ysgrifenedig atom, drwy gymryd rhan mewn sesiwn ymgynghori ar safle neu drwy fynychu gweithdy ymgynghori. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb am eu cyfraniadau. Diolch yn enwedig i'r rhai a gytunodd i gymryd rhan yn y broses yn eu cartrefi eu hunain ac i'r sefydliadau a fu'n helpu i hwyluso'r grwpiau ffocws ar y cyd a'r grwpiau ffocws ar wahân.

6. Y Camau Nesaf

Byddwn yn anfon copi o'r crynodeb hwn o'r ymgynghoriad at bob un o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gan gynnwys i'r safleoedd lle cymrodd y preswylwyr ran ac i'r sefydliadau a fu'n hwyluso'r grwpiau ffocws. Bydd y crynodeb o'r ymgynghoriad hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r ddogfen ddrafft. Rydyn ni'n rhagweld y cyhoeddir y ddogfen *Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr* ddrafft ym mis Mehefin i gyd-ddigwydd â Mis Hanes Sipsiwn, Roma Theithwyr.

Atodiad A
Yn y tablau isod rhestrir y sefydliadau a ddaeth i'r digwyddiadau ymgynghori ym mis Hydref a Thachwedd 2017.

Canolfan y QED, Trefforest – 16 Hydref 2017
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Prosiect Pontydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Dinas Caerdydd
Comisiynydd Plant Cymru
Siambrau Cyfreithiol Garden Court
Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Cymorth Cynllunio Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Tros Gynnal Plant
Cyngor Bro Morgannwg
Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent
Cyffordd Llandudno – 7 Tachwedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CPS
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Cyngor Sir Powys
Cydgysylltydd RCCC, Cyngor Sir Ynys Môn
Tros Gynnal Plant
Cyngor Sir Wrecsam
Parc Cenedlaethol Eryri
Abertawe – 9 Tachwedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Castell Nedd Port Talbot
Cyngor Sir Benfro
Cydgysylltydd, Abertawe
Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe
Cyngor Sir Abertawe
Tros Gynnal Plant
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Yn ystod y sesiynau hyn, trafodwyd y cynigion a rhannodd y rhai a fynychodd eu meddyliau cychwynnol am y ddogfen ymgynghori.